# Atodlen Penderfyniadau

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

## Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet dros Addysg a Blynyddoedd Cynnar

### I HOLL AELODAU CYNGOR DINAS CASNEWYDD

**Cyhoeddwyd yr Atodlen Benderfyniadau ar 12 Ebrill 2024**

Gwnaeth yr Aelod Cabinet y penderfyniadau isod ar 12 Ebrill 2024. Byddant yn dod i rym am hanner dydd ar 22 Ebrill 2024 ac eithrio unrhyw benderfyniad penodol sy'n destun cais “galw i mewn” dilys.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen gais 'Galw i Mewn' yw 4.00 pm ar 19 Ebrill 2024.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ynghylch yr broses 'Galw i Mewn' drwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

Nid yw adroddiadau ynghylch materion staffio/adroddiadau Cyfrinachol yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor fel rhan o'r prosesau ymgynghori/galw i mewn.

---

**Addysg a Blynyddoedd Cynnar 03/24**

**Cynnig ar y Cyd i Ad-drefnu Ysgolion — Lleihau Capasiti ac Ymestyn yr Ystod Oedran yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas — Penderfyniad Terfynol**

**Opsiynau a Ystyriwyd/Rhesymau dros y Penderfyniad**

Roedd y cynnig ad-drefnu ysgolion hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan y Cyngor a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol ac roedd yn cynnwys cyfnod o ymgynghori ffurfiol ac wedyn cyhoeddi hysbysiad statudol am y cyfnod gofynnol o 28 diwrnod o leiaf.

Aeth y cynnig drwy'r cam hysbysiad statudol heb wrthwynebiad. Cyfarfu Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a chadarnhaodd ei fod am weithredu'r cynnig. Felly, yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig llawn fel yr ymgynghorwyd arno.

**Penderfyniad**

Cymeradwyodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar y cynnig i ad-drefnu ysgolion ar y cyd gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas “i leihau capasiti'r ysgol o 378 i 315 o leoedd disgyblion o fis Medi 2024, ac i ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed o fis Medi 2025”.

**Ymgynghori**

Pennaeth y Gyfraith a Safonau, Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid a Phennaeth Cyllid.

Ymgynghorwyd â'r holl aelodau a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau. Mae unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac ymatebion wedi hynny wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**Gweithredwyd gan: Prif Swyddog Addysg**
**Amserlen Gweithredu: Ar unwaith**

CYNGHORYDD D DAVIES, AELOD CABINET DROS ADDYSG A BLYNYDDOEDD CYNNAR

Dyddiad: 12 Ebrill 2024